CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION GORFFENNAF 21, 2015

Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanfachreth
Nos Fawrth, Gorffennaf 21, 2015 am 7:30 o'r gloch.

Presennol Cynghorwyr: Rhun Prys Jones (Cadeirydd), Huw A. Evans, Gerallt Griffith, Llion Rh. Williams, Meurig Ashton a Peredur Jenkins. Hefyd Henry M. Edwards.

1.Croeso'r Cadeirydd

Croesawyd pawb oedd yn bresennol.

2. Ymddiheuriadau: Emlyn Roberts.

3. Datgan diddordeb.

Roedd Peredur Jenkins a Huw A. Evans yn datgan diddordeb ynglŷn â adolygu ysgolion cynradd.

Roedd Peredur Jenkins yn datgan diddordeb ynglŷn â eitem 7.a. Cais cynllunio NP5/54/348B.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mehefin 16, 2015

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Mehefin 16, 2015

Eitem 10.a. Llythyr (3/7/2015) oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi gwybod bod y coed ddim yn amharu a'r ffordd. Mae hyn yn cael ei gadarnhau gan Adran Priffyrdd Gwynedd.

Eitem 9.a.

i. Llythyr (8/7/2015) oddi wrth Cyngor Tref Dolgellau yn rhoi gwybod bydd aelodau o'r Cyngor yn bresennol yn y cyfarfod.

ii. Yn cyfarfod misol Cyngor Cymuned Llanelltyd cytunwyd i'r aelodau fod yn bresennol yn y cyfarfod.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (Mehefin 2015) oddi wrth Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd yn cynnwys holiadur ynglŷn ag ymgynghoriad darpariaeth llyfrgelloedd teithiol i gymunedau gwledig.

b. Llythyr (26/6/2015) oddi wrth Cymdeithion Sîan Shakespear yn gwahodd aelod o'r Cyngor i weithdy ymgynghoriad ar ddyfodol Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth Gwynedd ar ddydd Mercher Gorffennaf 15 am 6.00yh yng Nghanolfan Celfyddydau Porthmadog. Nid yw'r ymgynghoriad yn trafod Her Gwynedd a thoriadau i Cyngor Gwynedd.

c. Llythyr (17/06/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gwrs Modiwl 4 - Dealltwriaeth o'r Gyfraith (C) yn Llyfrgell Rydd, Dolgellau ar 07/07/2015 am 6.30yh.

ch. Llythyr (17/6/2015) oddi wrth Partneriaeth Economaidd Gwynedd, Cyngor Gwynedd. Amgáu mae llyfryn yn rhoi gweithgareddau'r Bartneriaeth dros y blynyddoedd diwethaf.

d. Llythyr (25/6/2015) oddi wrth Ombwdsmon yn cynnwys Adroddiad Blynyddol 2014/15.

dd. E-bost (3/7/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod cynhelir eu Cynhadledd ar ddydd Sadwrn, Hydref 3, 2015 am 9.30yb, yn Pafiliwn y Bont, Pontrhydfendigaid. Y gost fydd £85 y pen.

e. Llythyr (Mehefin 2105) oddi wrth Cymorth Cynllunio Cymru, Llywodraeth Cymru. Maent yn cynnal gweithdy hyfforddiant ar gynllunio ar gyfer Cynghorwyr Cymuned a Thref yn Adeilad yr Institiwt, Pavillion Hill, Caernarfon ar ddydd Llun Gorffennaf 27, 2015 rhwng 6.00yh-9.00yh.

f. Llythyr (13/7/2015) oddi wrth Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn gwahodd aelod o'r Cyngor i fyrbryd ym Mwyty Pl@iad ar Faes y Brifwyl ar ddydd Llun Awst 3 am 12:30yp.

ff. Copi o 'Newyddlen Dalgylch Y Gader' oddi wrth Addysg, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybodaeth am y broses o sefydlu Ysgol Ddilynol yn y Dalgylch.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Ceisiadau cynllunio

i. NP5/54/348B. Newid defnydd o dir amaethyddol i ysgol farchogaeth ceffylau ynghyd ac adeiladu ffens goed ar hyd y terfyn a gwrych newydd. Wern Gawr, Rhydymain.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (24/6/2015).

ii. NP5/54/356A. Gosod twrbin gwynt 5kw ar dwr 15m o uchder, cyfanswm o 16.770m ar frig y llafn. Tir yn Cae Glas, Llanfachreth.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (6/7/2015).

iii. NP5/54/384A. Gosod ffliw allanol, adeiladu storfa goed a hafdy ynghyd a gosod tanc LPG o dan y ddaear. Beudy Caerynwch, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (6/7/2015).

iiii. NP5/57/885G. Cynllun trydan dwr 20kw arfaethedig yn cynnwys adeiladu argae, pibell rhan tan ddaear a rhan uwch ddaear ac adeilad tyrbin. Cefn Naw Clawdd, Cwm Hafod Oer, Dolgellau.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (6/7/2015).

v. NP5/54/132D. Cynllun trydan dŵr arfaethedig yn cynnwys adeiladu argae, adeilad tyrbin, a gosod pibellau uwch y ddaear. Tir yn Tŷ March Gwyn, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

b. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref, (Gweithdrefn Rheoli Datblygiad) (Cymru) 2012.

i. Cais NP5/54/420A. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Diwygiad Ansylweddol ar gyfer newid edrychiad y tŷ twrbin o do gwyrdd i do llechi naturiol llwyd las. Tir ger Wern Gawr, Rhydymain.

c. Llythyr (19/06/2015) yn rhoi gwybod maent yn recriwtio 3 neu 4 i gymryd rhan yn eu rhaglen mentora fydd yn cychwyn mis Medi 2915 gan obeithio iddynt ddod yn Aelodau. Amgáu mae posteri yn rhoi gwybodaeth..

ch. Llythyr (9/7/2015) Teitl: Gorchymyn Gwarchod Coed (Rhif 67) 2015. Coedlan gogyfer Eglwys Sant Marc, Brithdir. Maent yn cadarnhau mae Gorchymyn Gwarchod Coed Dros Dro mewn grym yn barhaol.

d. Llythyr (7/7/2015) yn rhoi gwybodaeth amseroedd a'r dyddiadau ar gyfer prif bwyllgorau'r Awdurdod ar gyfer 2015/2016.

8. Materion Ariannol

a. Llythyr (Mehefin 15, 2015) oddi wrth Hacker Young yn gofyn am ddatganiad Cysoniad Banc am y flwyddyn yn diweddu 13 Mawrth 2015. Rhoddwyd y wybodaeth iddynt.

b. Llythyr (02/07/2015) oddi wrth Hacker Young gyda 'Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 wedi ei gwblhau.

Amgáu mae bil am £240.00, ffi am yr archwiliad.

Penderfynwyd talu'r ffi.

c. Llythyr (26/6/2015) oddi wrth E.W. Owen a'i Chwmni yn rhoi gwybod bod taliadau cyflog y Clerc wedi newid.

Taliad chwarterol i'r Clerc yn newid i £260.05 o £260.25.
Taliad i chwarterol i Gyllid a Thollau EM yn newid i £65.00 o £64.80.
Cyfanswm: £1,300.18. Gweler Cofnodion Mai 19, 2015.

ch. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Mehefin, 2015: £1,135.04.

d.. Balans yn y banc ar 29 Mehefin, 2015: £6,677.81.

9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

Cafwyd trafodaeth ar ddiweddaraf o'r toriadau mae Cyngor Gwynedd yn ei wynebu a'r effaith ceith ar y gwasanaethau, a thrafodaeth ar ysgolion yr ardal.

10. Unrhyw fater arall

a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen glanhau drych sydd ar ffordd A494 wrth droad i Dolserau.

b. Derbyniwyd cwyn nid yw bysiau yn fodlon stopio rhwng Bontnewydd a Rhydymain.

Llofnod: Dyddiad: